**Ymateb i Ymgynghoriad i newidiadau arfaethedig Mewn Trwyddedau Rheolau Safonol**

**Mawrth 2017**

Rheolau safonol ar gyfer y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol

Hydref 2016

Cyhoeddwyd gan:

Cyfoeth Naturiol Cymru

Tŷ Cambria

29 Ffordd Casnewydd

Caerdydd

CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwe, 8am - 6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

www.naturalresourceswales.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru ymlaen

## Crynodeb

Mae Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 (“Rheoliadau EP”) yn ein galluogi i gynnig trwyddedau safonol, er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar fusnes gan gynnal safonau amgylcheddol. Maent wedi'u seilio ar setiau o reolau safonol y gallwn eu gweithredu ledled Cymru a Lloegr. Caiff y rheolau eu datblygu drwy ddefnyddio asesiadau risg amgylcheddol sy'n deillio o'r gweithgaredd.

Mae'r rheolau’n cymryd cryn dipyn o amser, adnoddau a gwaith ymgynghori i'w datblygu, ond pan fyddant wedi’u gosod ar waith maent yn gwneud y gwaith o weithredu'r ceisiadau a phenderfynu arnynt yn gymharol hawdd. Y rheswm am hyn yw nad oes angen asesiad risg penodol i'r safle.

Ym mis Hydref 2016 buom yn ymgynghori ar gynigion i ddiwygio nifer o’r Trwyddedau Rheolau Safonol sydd ar gael ar gyfer gweithrediadau gwastraff. Cynigiwyd 36 o newidiadau mewn 36 o wahanol setiau o reolau, ynghyd â chynigion i ddileu’r pedair set o reolau safonol presennol ar gyfer Dyddodi at Ddibenion Adfer, ac yn eu lle cael un fersiwn gyfnerthedig.

Rydym wedi cael cyfanswm o 5 ymateb i’r ymgynghoriad.

# Cynnwys

Crynodeb ........................................ 4

Cynnwys ........................................ 5

1. Dyddodi at Ddibenion Adfer ........................................ 5

2. Gofynion Atal Tân ........................................ 8

3. Trin Metelau ........................................ 10

4. Safleoedd Ailgylchu Gwastraff y Cartref ........................................ 12

5. Safleoedd sy’n Rheoli Asbestos ........................................ 12

6. Taenu gwastraff ar dir er lles ........................................ 13

## 1. Dyddodi at Ddibenion Adfer

### Cynigion y buom yn ymgynghori yn eu cylch

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnig cyflwyno set rheolau safonol newydd Rhif SR2015 Rhif39 yn lle'r 4 rheol safonol sy'n cwmpasu dyddodi at ddibenion adfer (SR2010 Rhif7, Rhif8, Rhif9 a Rhif10). Byddai'r rheolau arfaethedig yn caniatáu defnyddio hyd at 60,000 metr ciwbig o wastraff risg isel ar gyfer, yn unig, adeiladu, adennill, adfer, adnewyddu neu wella tir mewn lleoliadau risg isel. Byddai ychydig lwfans ar gyfer defnyddio gwastraff arall mewn haenau wyneb at ddibenion penodol.

Roeddem yn cynnig tynnu'r rheolau safonol presennol yn ôl ar gyfer ymgeiswyr newydd ym mis Ebrill 2017. Byddai'r rheiny sydd eisoes yn gweithredu dan y rheolau hyn yn cael 9 mis naill ai:

- I gwblhau eu gweithrediadau a gwneud cais am ildio'u trwydded; neu
- I wneud cais am y rheolau safonol newydd os byddai'r gweithgareddau'n cydymffurfio â nhw; neu
- I wneud cais am gael trwydded benodol i ganiatáu'r gweithgaredd.

Roeddem hefyd yn gwneud yn glir na fydd angen ailgyflwyno Cynlluniau Adfer Gwastraff os na chaiff y cynllun arfaethedig ei newid. Bydd angen diwygio'r mathau o wastraff sydd wedi'u cynnwys dim ond os bydd gwrthdaro â'r rheolau newydd.

### Lefel yr ymateb

Un ymgynghorai a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn,

Caiff yr ymatebion i'r cwestiynau eu trafod yn fanwl dan y penawdau isod. Rydym wedi ystyried yr ymateb yn ofalus, a gwelir isod ein hymatebion i'r sylwadau hynny.

***Cwestiwn un:*** *A ydych yn cytuno â'n dull o ddefnyddio rheolau safonol ar gyfer gweithgareddau dyddodi gwastraff at ddibenion adfer?*

Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn cytuno y gall trwyddedau rheolau safonol ddarparu mecanwaith defnyddiol i hwyluso adfer rhai defnyddiau gwastraff, ond yr oeddent yn codi pryderon y gall yr amrywiaeth codau gwastraff sy'n dderbyniol danseilio marchnadoedd, ar gyfer rheoli rhai o'r defnyddiau gwastraff hyn drwy gyfrwng ffyrdd eraill a allai fod yn fwy buddiol yn amgylcheddol.

Roedd yr ymgynghorai hefyd yn codi pryderon y gall symud mathau penodol o wastraff a ganiateir dan y setiau Rheolau Safonol, a Lludw Tanwydd wedi'i Falu yn benodol, olygu mwy o dirlenwi'r defnydd penodol hwn.

**Ymateb CNC**
Rydym yn cydnabod y gallai cyfyngu defnyddiau penodol o'r rheolau safonol olygu bod angen i rai cynigion gyflwyno cais am drwydded benodol yn y dyfodol. Bydd cais penodol yn sicrhau y gall risgiau defnyddio rhai o'r defnyddiau hyn gael eu hasesu ar sail safle penodol

yn ystod y cyfnod gwneud cais. Teimlwn fod hwn yn ddull mwy priodol i ddelio â chynigion felly.

***Cwestiwn dau**: Beth yw eich barn am y newidiadau arfaethedig a pham?*

Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad yn ystyried y bydd dileu nifer o godau gwastraff sydd wedi bod yn gymwys i'w derbyn dan y pedair rheol safonol (SR2010 Rhifau 7 i 10), ynghyd â'r potensial ar gyfer tynnu'n ôl Ddatganiad Safbwynt Rheoleiddio Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) 172 (RPS 172, Rheoleiddio defnyddio lludw tanwydd crai a lludw gwaelod o ffwrneisi, Mai 2014) a Phenderfyniad Rheoleiddio Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) RD_02, sy'n ei adlewyrchu, yn cael effeithiau negyddol. Mae'r effeithiau hyn yn debygol o gynnwys gwaredu defnyddiau y gellid eu defnyddio fel arall mewn safleoedd tirlenwi a chynnydd cyfatebol wrth ddefnyddio agregau crai, ac felly wneud adnoddau'n llai cynaliadwy.

**Ymateb CNC**

Er ein bod yn cydnabod bod y rhestr o godau gwastraff wedi'i byrhau i'w defnyddio dan y trwyddedau rheolau safonol, nid yw'n cyfyngu defnyddio'r defnyddiau hyn mewn safleoedd sy'n gweithredu dan drwydded benodol adfer at ddibenion, yn amodol ar asesiad manylach.

***Cwestiwn tri: A ydych yn deall gofynion y rheolau safonol newydd arfaethedig?***

Dywedodd yr ymgynghorai fod ei aelodau'n deall yn llawn ofynion y rheolau safonol newydd, ond nid o reidrwydd y cyfiawnhad dros rai o'r elfennau ynddynt.

***Cwestiwn pedwar: A fydd y rheolau safonol arfaethedig yn darparu mecanwaith defnyddiol i ganiatáu ar gyfer defnyddio gwastraff yn fuddiol?***

Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn cynnig y dylai mathau o wastraff a all gyrraedd statws Diwedd Gwastraff drwy'r Agregau Protocol Ansawdd o wastraff anadweithiol gael eu heithrio o'r rhestr o wastraff derbyniol dan y Trwyddedau Rheolau Safonol, gan fod y Protocol yn cynnig dull mwy cynaliadwy ar gyfer adfer defnyddiau gwastraff.

Mynegodd yr ymgynghorai bryder am fod defnyddiau lludw yn cael eu cyfyngu o gwmpas arfaethedig y set Rheolau Safonol ?????, yn fwy penodol;

- 10 01 01 (lludw gwaelod, slag) ut????
- 10 01 02 (PFA)
- 10 01 05 gypsum (solet)
- 10 01 07 gypsum (llaid)
- 10 01 15 (lludw gwaelod a llaid o gyd-losgi)

Mae'n mynegi pryderon y bydd disgwyl i ymgeiswyr ddefnyddio Trwyddedau Penodol (BP) yn helaethach ar gyfer gweithgareddau adfer gwastraff a disgwyl i asesiadau risg dŵr tir gael eu gwneud, gan gymryd i ystyriaeth natur y gwastraff a sensitifrwydd hydrolegol y lleoliad adfer arfaethedig.

Dywedodd yr ymatebydd , gan fod lludw glo wedi'i dynnu allan o'r rheolau safonol, y bydd gwastraff arall, gan gynnwys agregau eilaidd neu ddefnyddiau crai, yn ei ddisodli i'w ddefnyddio mewn rhai prosiectau. Dywedwyd y bydd hyn yn cynyddu defnyddio adnoddau (ac allyriadau nwy tŷ gwydr) ac yn golygu y bydd mwy o ludw glo yn mynd i dirlenwi. Dywedodd yr ymatebydd na fyddai'r gofyniad trwyddedu penodol ar gyfer asesu safle penodol yn rhoi sicrwydd rheoleiddio y gellir defnyddio lludw glo, ac felly defnyddir defnyddiau gwastraff yn ei le.

**Ymateb CNC**

Er ein bod yn cefnogi cynhyrchu agregau o wastraff anadweithiol gan ddefnyddio'r protocol ansawdd, ac yn cydnabod sut y gallai parhau i gynnwys y mathau hyn o wastraff o fewn y set rheolau safonol o bosibl danseilo0 defnyddio'r protocol hwn, credwn efallai na fydd cyfyngu mathau o wastraff a ganiateir ac sy'n dderbyniol i'w defnyddio dan y Drwydded Rheolau Safonol fod yn briodol y tro hwn. Byddwn yn parhau i fonitro hyn yn y dyfodol.

Mae lludw tanwydd wedi'i falu (PFA) ac agregau lludw gwaelod llosgydd (IBAA) wedi eu hasesu fel rhan o'r prosiect Protocol Ansawdd. Mae modelau cyfrifiadur o strwythurau peirianneg, gan gynnwys cloddiau, wedi eu datblygu ar sail dadansoddiad labordy o'r defnyddiau gwastraff hyn sy'n dangos effeithiau annerbyniol ar ddŵr tir mewn lleoliadau sensitif wedi'u modelu. At hynny, mae treialon trwytholchi yn y maes wedi eu cynnal dan y rhaglen Equal, ac mae'r canlyniadau'n cefnogi darganfyddiadau'r gwaith modelu ar gyfrifiadur. Nid oes protocolau Ansawdd yn esbonio statws diwedd gwastraff wedi'u defnyddio ar gyfer defnyddio PFA a IBAA heb ffiniau am y rhesymau hyn. Gall fod lleoliadau lle na fydd dim niwed na llygredd i ddŵr tir yn digwydd o ganlyniad i ddyddodi'r defnyddiau gwastraff hyn, ond bydd yn rhaid penderfynu ble mae'r lleoliadau hyn drwy ddefnyddio asesiad risg sy'n benodol i safle. Gan na ellir asesu'r risgiau a achosir gan y defnyddiau gwastraff hyn mewn ffordd gyffredinol, nid yw trwydded rheolau safonol yn canlatau defnyddio'r defnyddiau gwastraff hyn yn generig, oni chaiff ei rheoli gan Drwydded Benodol.

***Cwestiwn pump: A ydym wedi nodi'n gywir yr holl risgiau ar gyfer y gweithgarwch, fel y caiff ei ddisgrifio yn yr asesiad risg generig sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad?***

O ran yr asesiad risg generig, mae'r ymatebydd yn cytuno'n fras â'r dull o nodi'r risgiau a'r disgrifiad o'r holl risgiau gweddilliol sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch naill ai fel "isel" neu "isel iawn".

Mae'r ymgynghorai yn deall yn llawn bod angen diogelu cyflenwadau dŵr tir, yn enwedig mewn Prif Acwifferau a rhai Eilaidd a ddefnyddir yn helaeth ar gyfer Cyflenwad Dŵr Cyhoeddus (PWS), y diwydiant bwyd/diod, ac i ddarparu llif sylfaen i gyrsiau dŵr wyneb. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwybod am weithrediadau adfer gwastraff sydd wedi digwydd yn SPZ 1 ac wedi cael effaith niweidiol ar ansawdd dŵr tir.

- ## 2. Gofynion Atal Tân

### Cynigion yr ymgynghorwyd yn eu cylch

Buom yn ymgynghori ynghylch cynigion i'w gwneud yn ofynnol i weithredwyr a ganiateir dan amrywiaeth o wahanol Drwyddedau Rheolau Safonol i weithredu'r argymhellion sydd wedi'u gosod allan yng nghanllaw Cyfoeth Naturiol Cymru ar Atal Tân a'i gynllun lleddfu mewn safleoedd gwastraff a ganiateir.

### Lefel yr ymateb

Un ymgynghorai a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r sylwadau a wnaed i ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn gyffredinol yn cyfeirio at amodau penodol gyda'r canllaw atal tân, yn hytrach na'r cynigion i fodloni'r gofynion drwy'r trwyddedau Rheolau Safonol. Fel y cyfryw, cynigiwn beidio â gwneud dim newidiadau yn nrafft y set Rheolau Safonol ei hun. Rydym yn cydnabod y sylwadau ynglŷn â'r canllaw atal tân, ac ar hyn o bryd rydym yn gwneud arolwg o'r ddogfen.

Caiff yr ymatebion i'r cwestiynau eu trafod yn fanwl dan y penawdau isod. Rydym wedi ystyried yr ymateb yn ofalus, a gwelir isod ein hymatebion i'r sylwadau hynny.

***Cwestiwn un: A ydych yn cydnabod bod angen rheoli risg tân mewn safleoedd sy'n delio â gwastraff llosgadwy drwy gynhyrchu cynllun atal tân?***

Roedd yr ymateb yn cydnabod bod angen cyflwyno mesurau i atal tanau ar safleoedd gwastraff, a defnyddio mesurau i reoli'r effaith ar yr amgylchedd pan fyddant yn digwydd. Gofynnai'r ymateb am gael cydbwysedd rhwng yr hyn sy'n ddymunol a'r hyn sy'n ymarferol ar safleoedd gwastraff unigol. Roedd yn mynegi pryder am weithredu meini prawf atal tân yn argymhellol ym mhob safle mewn un dull cyffredinol, na fyddai efallai yn cynnig yr un diogelwch neu fod mor ymarferol i'w weithredu â mesurau sy'n cael eu defnyddio i fod yn addas i amgylchiadau'r safle unigol.

**Ymateb CNC**

Rydym yn cydnabod bod canllaw Cyfoeth Naturiol Cymru ar atal a lleddfu tân ar hyn o bryd yn awgrymu ei bod yn rhaid cymryd camau penodol i atal tân er mwyn sicrhau cydymffurfio. Rydym wrthi'n adolygu canllaw CNC, a byddwn yn sicrhau y caiff ei ddiwygio i adlewyrchu'r ffaith y gellir defnyddio dulliau gwahanol, cyn belled â'u bod yn rhoi lefel briodol o ddiogelwch.

***Cwestiwn 2: Ar gyfer safleoedd heb adeilad sy'n storio neu drin gwastraff llosgadwy, a yw'r cyfnod preswylio o dri mis yn ddull effeithiol o atal tân?***

Cytunai'r ymateb fod y cyfnod preswylio o dri mis yn ddull priodol yn y rhan fwyaf o achosion. Ond yr oedd yn gofyn am rywfaint o hyblygrwydd yn y cyfyngiad hwn, i ganiatáu ar gyfer ymgorffori ystyriaethau sy'n benodol i'r safle.

Mae'r ymateb yn galw hefyd ar Gyfoeth Naturiol Cymru i fonitro'n weithgar y cydymffurfio â'r cyfnodau preswylio hyn, ac i sicrhau gorfodi cydymffurfio lle nad yw'r cyfyngiadau wedi'u bodloni.

**Ymateb CNC**

Cyfrifoldeb y gweithredwr yw sicrhau cydymffurfio â'i drwydded a'i system reoli gysylltiedig, gan gymryd i ystyriaeth ganllaw perthnasol. Lle nodir bod gweithredwr yn torri unrhyw amod mewn trwydded, bydd hynny'n golygu y byddai CNC yn ystyried cymryd camau gorfodi priodol.

***Cwestiwn 3: Dwedwch wrthym am unrhyw sylwadau pellach sydd gennych am y newidiadau hyn.***

Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at y meysydd canlynol sy'n peri pryder.

<u>Ardaloedd cwarantîn</u>

Roedd yr ymateb yn mynegi pryderon am bennu ardaloedd cwarantîn penodol, ac ymarferoldeb symud gwastraff sy'n llosgi. Mae'r ymgynghorai yn cytuno bod trefniadau cwarantîn yn bwysig, ond bydd y canllawiau fel maent wedi eu gosod allan nawr yn cael effaith sylweddol ar y patrwm economaidd ar gyfer llawer safle.

<u>Pellteroedd Gwahanu</u>

Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad yn galw am leihau pellteroedd gwahanu i fod yn dderbyniol, yn amodol ar allu dangos bod mesurau rheoli eraill mewn grym.

<u>Mygu Tân</u>

Mae'r ymgynghorai'n galw am asesiad sy'n benodol i safle o'r angen am drefnu systemau mygu, yn hytrach na gweithredu ateb ar gyfer pob safle.

**Ymateb CNC**

Byddwn yn ystyried y sylwadau a wnaed am ardaloedd cwarantîn, pellteroedd gwahanu a dulliau mygu tân yn ein harolwg o'n canllaw ar atal tân a lleddfu tân. Byddwn yn cymryd i ystyriaeth y pryderon a godwyd gan yr ymgynghorai yn yr ymateb hwn.

## 3. Trin Metelau

### Cynigion yr ymgynghorwyd yn eu cylch

Ymgynghorwyd ynghylch cynigion i'w gwneud yn ofynnol i weithredwyr sy'n cael eu trwyddedu dan amrywiaeth o wahanol Drwyddedau Rheolau Safonol weithredu'r argymhellion sydd wedi'u gosod allan yng nghanllaw Cyfoeth Naturiol Cymru ar Atal Tân mewn safleoedd gwastraff a ganiateir.

### Lefel yr ymateb

Un ymgynghorai a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn.

***Cwestiwn un: A fydd caniatáu i offer sy'n cynnwys ODS gael ei dderbyn i'w storio, hyd yn oed os na ellir ei drin, yn rhoi mwy o hyblygrwydd i safleoedd sy'n gweithredu dan y rheolau safonol hyn?***

Roedd yr ymateb yn cytuno â'n cynigion.

***Cwestiwn dau: A ydych yn cefnogi'r cynnig hwn, ac a fydd darparu dewisiadau draenio gwahanol ar gyfer cerbydau sydd heb eu llygru o fudd i weithredwyr drwy gynyddu nifer y safleoedd sy'n gallu gweithredu dan y rheolau safonol hyn?***

Roedd yr ymateb yn awgrymu y gall fod yn fuddiol darparu amod draenio o fewn y drwydded sy'n cyfeirio at y gofynion draenio a/neu safonau ar gyfer y canllaw sydd wedi'i gymeradwyo, megis defnyddio PPG3 a dylunio gwahanyddion olew mewn systemau draenio dŵr wyneb.

Mae amod 1.1.1 yn darparu amod trosfwaol i sicrhau bod yr holl fesurau priodol yn unol â'r canllaw cyfredol ar waith.

Roedd yn awgrymu hefyd, er mwyn osgoi'r dryswch a'r camddehongli presennol, y byddai'n fuddiol pe bae'r rheolau safonol yn cynnwys diffiniad o "Lawr caled" (treiddadwy ac anhreiddiadwy) a diffiniad diwygiedig o "System Draenio wedi'i Selio". Byddai hefyd yn fuddiol i'r trwyddedau rheolau safonol gynnwys diffiniad o "Gollyngiadau Ffynhonnell Pwynt" mewn cysylltiad â rhyddhau llygredd, defnydd traenio wedi'i lygru a dŵr safle heb ei lygru a dŵr glaw o doeon.

***Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno, gan mai ar gyfer gweithrediadau adfer yn bennaf y mae'r rheolau safonol hyn, fod cyfyngu gwastraff peryglus i'w waredu yn fater o fod yn rhagofalus ac na chaiff lawer o effaith ymarferol?***

Roedd yr ymateb yn cytuno mai gweithrediadau adfer yn bennaf yw'r rhain a bod y cyfyngiad ar storio gwastraff peryglus i'w waredu yn ceisio bod yn rhagofalus. Ond aeth ymlaen i ddweud nad yw storio gwastraff peryglus (sy'n dal wedi'i gyfyngu i 50 tunnell fetrig beth bynnag), boed i'w waredu neu ei adfer, yn lleihau nac yn cynyddu risgiau llygredd neu niwed posibl.

Mae'r ymateb yn awgrymu y gall terfyn ar gyfer amserau storio gwastraff peryglus (boed ar gyfer gwaredu a / neu adfer) yn hytrach gael effaith fwy ymarferol, e.e. lleihau amseroedd i gynwysyddion gyrydu neu waethygu, neu ollwng yn araf deg, etc.

Mae'r terfyn storio newydd wedi'i gyflwyno i sicrhau bod gweithgareddau sy'n digwydd dan y setiau rheolau safonol yn dal y tu allan i gwmpas y Gyfarwyddeb Gollyngiadau Diwydiannol. Bydd y terfyn storio, felly, yn parhau yn y set rheolau newydd.

**Cwestiwn pedwar: A ydych yn cefnogi egwyddor cyfuno rheolau safonol yn y sector ailgylchu metelau, ac a ydych yn credu y bydd mwy o weithredwyr yn gallu elwa o reolau safonol o ganlyniad?**

Cytunai'r ymateb y bydd y newidiadau'n fuddiol.

**Ymateb CNC**

Felly, rydym yn argymell peidio â gwneud dim newidiadau yn y cynigion sydd wedi'u gosod allan yn ein hymgynghoriad.

## 4. Newidiadau yn Setiau Rheolau Safonol ar gyfer Safleoedd Ailgylchu Gwastraff y Cartref

### Cynigion yr ymgynghorwyd yn eu cylch

Buom yn ymgynghori ar gynigion i ymestyn y rhestr o ddefnyddiau gwastraff derbyniol i gynnwys amrywiol godau ychwanegol yn ymwneud â gwastraff pacio (EWC Pennod 15).

### Lefel yr ymateb

Ni chawsom ddim ymatebion i'r cynigion hyn. Felly, byddwn yn gweithredu'r newidiadau arfaethedig.

## 5. Newidiadau mewn safleoedd sy'n trin Asbestos

### Cynigion yr ymgynghorwyd yn eu cylch

Buom yn ymgynghori ar gynigion i ddiwygio'r gofynion storio ar gyfer safleoedd sy'n trin Asbestos.

### Lefel yr ymateb

Ni chawsom ddim ymatebion i'r cynigion hyn. Felly, byddwn yn gweithredu'r newidiadau arfaethedig.

## 6. Newidiadau mewn trwyddedau i ganiatáu taenu gwastraff ar dir yn llesol

### Cynigion yr ymgynghorwyd yn eu cylch

Buom yn ymgynghori ynghylch cynigion i newid yn sylweddol y set rheolau safonol ar gyfer trin y tir. Roedd y cynigion hyn yn cynnwys terfyn newydd ar y ffordd y caiff gwastraff ei reoli ar safle a sut mae'n cael ei ddefnyddio, a diwygiwyd hefyd y meini prawf y mae'n rhaid i safle eu bodloni er mwyn elwa o drwydded Rheolau Safonol.

### Lefel yr ymateb

Cawsom 2 ymateb i'n hymgynghoriad. Roedd y ddau ymateb yn gwneud sylwadau penodol am amrywiol agweddau ar y cynigion, a cheir crynodeb ohonynt isod:

Storio Gwastraff cyn ei Ddefnyddio

Teimlai un ymateb mai ychydig iawn o dystiolaeth oedd wedi'i chyflwyno i gyfiawnhau'r newid mewn storio gwastraff na ellir ei stacio, a gofynnai i CNC esbonio pam mae'r gostyngiad hwn wedi'i wneud, ac i ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r newid hwn.

Roedd yr ail ymateb yn cytuno bod hyn yn ddull cadarnhaol i ffurfioli'r trefniant lle bydd terfyn storio'n gymwys i bob Defnydd, yn hytrach nag i bob Trwydded, ac i barhau i ganiatáu terfyn storio o 3,000 tunnell fetrig. Mae gostwng y terfyn o 3,000 i 1,250 tunnell fetrig ar gyfer gwastraff na ellir ei stacio yn hollol resymol, ac mae'n cydnabod maint y risgiau wrth storio felly na ellir ei ganiatáu.

**Ymateb CNC**

Bydd y maint mwyaf ar gyfer storio gwastraff yn newid o 3,000 tunnell fetrig am bob trwydded i 3,000 tunnell fetrig am bob achos o ddefnyddio. Felly, mae hyn yn gynnydd llesol wrth storio ar safle. Er mwyn adlewyrchu'r newid hwn a lleihau'r proffil risg, mae elfen y gwastraff na ellir ei stacio yn y 3,000 tunnell fetrig ym mhob achos o ddefnyddio ar unrhyw un adeg wedi'i gostwng i 1,250 tunnell fetrig (dyna oedd y terfyn a osodwyd dan yr eithriad blaenorol y mae'r SRP gwreiddiol wedi'i seilio arno). Ni ddylai bod angen i wastraff gael ei storio mewn llwythi mawr mewn cyfleusterau dros dro am gyfnodau maith. Credwn y bydd hyn yn golygu defnyddio gwastraff yn well gyda llai o risg i'r amgylchedd.

Credwn fod yr amodau storio yn y ddogfen ymgynghori yn rhesymol, ac felly byddant yn rhan o'r set newydd o Reolau Safonol.

Mathau o Wastraff Ychwanegol

Croesawyd y cynnig i ganiatáu mathau ychwanegol o wastraff, ac awgrymwyd datblygu mecanwaith i ganiatáu derbyn mathau ychwanegol o wastraff dan y set rheolau safonol.

**Ymateb CNC**

Gan fod y Setiau Rheolau'n ddibynnol ar ymgynghoriad yn unol â'r ddeddfwriaeth, ni ellir newid mathau o wastraff oni wneir arolwg o'r set rheolau. Gellir gwneud newidiadau'n hawdd os bydd yn briodol i drwyddedau safleoedd symudol penodol.

Rhoi Gwybod Ymlaen Llaw am Ddefnyddio

Mae un ymateb yn credu bod y gofyniad i roi gwybod ymlaen llaw yn faich diangen ar y rheiny sy'n gweithredu trwydded taenu ar dir. Credant y bydd y gofyniad yn gwneud y drwydded yn fwy beichus am ychydig iawn o les i'r amgylchedd. Gall tywydd cyfnewidiol a pheiriannau'n torri hefyd ei gwneud yn anodd rhagweld 48 awr ymlaen llaw pryd y bydd taenu ar dir yn digwydd.

Daeth yr ail ymateb gan weithredwr sydd eisoes yn rhoi gwybod ymlaen llaw am ddefnyddio ac roedd yn cydnabod y manteision o wneud hynny. Dywedai fod elfen o hyblygrwydd i sicrhau na chaiff gweithredwyr eu gorfodi i ddefnyddio a gwneud tir yn anaddas oherwydd y tywydd.

**Ymateb CNC**

Mae'r gofyniad i roi gwybod ymlaen llaw yn hysbysiad o "fwriad i daenu" i'r rheoleiddiwr. Nid yw CNC eto wedi cwblhau ei ddull ar gyfer yr hysbysu hwn. Fodd bynnag, mae'n debygol o fod drwy gyfrwng teleffon/e-bost gyda set benodol o wybodaeth wedi'i rhoi e.e. cyfeirnod defnyddio, cyswllt a dyddiad y taenu arfaethedig. Amcangyfrifwyd, ar gyfer pob achos o ddefnyddio yn fras, fod tua 2 hysbysiad posibl yn y ffenestr ddefnyddio honno. Nid yw'r rheoleiddiwr yn barnu bod hyn yn ormodol o feichus, a gobeithir y bydd yn adeiladu cysylltiadau gwell gyda thimau rheoleiddio lleol.

Parthau Diogelu Dŵr Tir

Dywedodd un ymateb i'r ymgynghoriad ei fod yn cytuno â'n cynigion i gyfyngu defnyddio mathau penodol o wastraff mewn Parthau Diogelu Dŵr Tir (SGZ).

Roedd yr ail ymateb yn bryderus iawn am y cyfyngiad arfaethedig, ac am ddatblygu parthau diogelu dŵr tir yn gyffredinol.

**Ymateb CNC**

Caiff set rheolau safonol ei datblygu i gynnwys amgylchiadau lle mae set o reolau generig wedi'u hasesu ymlaen llaw yn gymwys. Ni fyddai'r asesiad yn cynnwys asesiad penodol o effaith nitrad ar ffynhonnell benodol. Os na fyddai'r gweithgarwch yn cydymffurfio â'r amgylchiadau generig, gallai fod angen i'r gweithredwr wneud cais am drwydded benodol.

Rydym yn gwerthfawrogi y bydd pryderon lle bydd y SGZ o fewn ardal SPZ2, a rhoir ystyriaeth bellach i bosibilrwydd gosod cyfyngiadau yn hytrach na gwaharddiad dan y set rheolau hon yn yr ardaloedd hyn. Mae asesiad defnyddio presennol yn golygu bod unrhyw ddefnyddio mewn SPZ2 yn fwy o leoliad risg, a bydd angen i'r ymgeisydd gyflwyno asesiad sy'n benodol i safle. Mae hyn yn unol â gofynion Rheoliadau Dŵr Tir.

Ar hyn o bryd yng Nghymru mae gennym 1 ardal SGZ benodedig ym Mhen-bre, ac mae hon wedi'i rhestru ar sail pryderon am lygru gan ficrobau. Mae'r cyfyngiadau yn y set hon o reolau yn gymwys i reoliadau nitradau. Yn amlwg, deellir y bydd llawer iawn o wastraff sy'n uchel mewn RAN hefyd yn cynnwys llawer iawn o ficrobau.

Credwn fod y camau hyn yn diogelu ffynonellau dŵr a hefyd y sector amaethyddol, a byddant yn sicrhau dŵr yfadwy wedi'i ddiogelu mewn ardaloedd lle mae'r disgrifiad hwn mewn grym.

Parthau sy'n Agored i Nitradau

Roedd un ymateb yn awgrymu y gallai fod yn well cyfeirio at y safonau a bennir yn y gofynion NVZ yn hytrach na chyfeirio at safonau penodol yn y drwydded ei hun.

**Ymateb CNC**

Daw'r geiriad arfaethedig o'r cyfyngiadau sydd mewn grym ar hyn o bryd dan yr eithriad perthnasol ar gyfer taenu ar dir, a'r Cod Arfer Amaethyddol Da. Bydd CNC yn edrych ar y geiriad hwn ac yn sicrhau nad yw'n tanseilio nac yn gwanhau'r gofynion sydd i'w gosod allan yn y rhaglen Gweithredu NVZ arfaethedig.

Newidiadau yn SR 2010 Rhif 17. Storio Gweddillion Treuliad o Blanhigion Anaerobig

Roedd un ymateb i'r ymgynghoriad yn dweud bod y cynigion hyn i gyd yn cael eu croesawu, o'r safbwynt eu bod yn helpu ymestyn yr amrywiaeth o ddefnyddiau gwastraff sy'n dderbyniol, ac o'r safbwynt bod risgiau'n cael eu rheoli'n well, h.y. gyda chynwysyddion storio sy'n cydymffurfio â CIRIA a Thanciau Gweddillion Treuliad wedi'u gorchuddio.

Gwnaed sylwadau am y cynnig i'w gwneud yn ofynnol i ddefnyddiau gwastraff y gellir eu stacio gael eu storio ar wyneb anhydraidd gyda dull traenio wedi'i selio. Dywedai'r ymateb y gall defnyddiau gwastraff i'w stacio, mewn Parth Agored i Nitradau (NVZ), gael eu storio mewn twmpathau dros dro, yn ogystal ag mewn llestri, adeiladau gyda tho ac ar seiliau anhydraidd lle mae'r hyn sy'n rhedeg i ffwrdd yn cael ei gasglu. Credai y dylai amodau'r drwydded adlewyrchu gofynion NVZ a bod yn gymwys mewn ardaloedd NVZ yn unig.

**Ymateb CNC**

Mae CNC wedi cynnig y gofynion storio hyn er mwyn sicrhau cysondeb a gweithrediadau gwastraff eraill. Mae'r gofynion NVZ hefyd yn cynnwys pob defnydd nad yw'n wastraff y gellir eu stacio. Er mwyn rheoleiddio mae'n ofynnol cadw at gysondeb o fewn y sector gwastraff. Felly, nid fwriadwn newid y gofyniad hwn.

Cynnig CNC yw ei gwneud yn ofynnol i gynwysyddion a ddefnyddir i storio gwastraff na ellir ei stacio gael eu gwneud yn ôl manylion CIRIA 126. Hwyrach bod y Rheoliadau SSAFO cyfredol yn briodol i elfennau rheoleiddio treuliad anaerobig. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn argymhellion yn y Prosiect ar y cyd gan y Llywodraeth a'r Diwydiant ar Reoli a Storio Slyri, rhaid i'r graddau y mae SSAFO yn cynnwys porthiant mewn cladd ac elfennau eraill o AD gael ei wneud yn glir iawn mewn Rheoliadau diwygiedig. Bu Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar gynigion i ddiweddaru'r rheoliadau SSAFO yn ystod 2015. Mae'r sawl yr ymgynghorwyd â hwy yn deall, o'r Crynodeb o Ymatebion y Sawl yr Ymgynghorwyd â Hwy, fod angen datblygu nifer o'r cynigion a wneir yn y ddogfen ymgynghori ymhellach cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Nid yw'r ymgynghorai yn credu y dylai'r drwydded rheolau safonol gael ei diweddaru ar wahân i'r darnau gwaith eraill hyn sydd ar y gweill.

**Ymateb CNC**

Fel y dywedwyd, mae'r set rheolau SRP yn dod o fewn y grŵp o drwyddedau ar gyfer y sector gwastraff, ac fel y cyfryw maent yn adlewyrchu gofynion y sector hwn a'r safonau angenrheidiol. Mae cyfle i wneud cais am drwydded storio benodol os bydd unrhyw weithredwr yn dymuno defnyddio rhywbeth yn lle'r gofynion sydd wedi'u gosod o fewn setiau penodol o reolau.

Roedd amheuaeth am y cynnig i wastraff nitrogen sydd ar gael yn hawdd gael ei storio, ond mewn cynwysyddion yn unig, er mwyn atal amonia rhag gollwng. Mae'r ymgynghorai'n egluro

nad yw hyn yn ofynnol yn y rheoliadau SSAFO na NVZ ar hyn o bryd. Felly, ni fyddem yn cefnogi'r gofyniad hwn dan y drwydded rheolau safonol, yn enwedig pan all gweddillion treuliad gael eu storio am gyfnod byr cyn eu taenu.

**Ymateb CNC**

Mae CNC yn egluro bod y set rheolau hon wedi'i gwneud ar gyfer storio llawer iawn o weddillion treuliad AS gwastraff. Caiff storio cyfyngedig dros dro am gyfnod byr ei gynnwys gan y drwydded taenu ar dir. Pan fydd yn well gan y gweithredwr ddefnyddio dulliau storio gwahanol, gall trwydded storio benodol gael ei hystyried.

Gydag unrhyw ddeddfwriaeth a ddefnyddir, mae'r safon uchaf yn gymwys os yw hynny o fewn y set rheolau, ac yna bydd y safonau hynny'n gymwys. Os bydd deddfwriaeth ar ganllaw statudol sy'n gosod gofyniad uwch, yna rhaid dilyn honno.

## Crynodeb

Ar sail yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, ni fwriadwn wneud dim newidiadau yn y cynigion sydd wedi'u gosod allan yn ein hymgynghoriad.